# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

**RHAN 9**

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

**PENNOD 13**

CEFNU

(MAE'R BENNOD HON YN GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH)

**220 Meddiannu anheddau y cefnwyd arnynt**

(1) Os yw'r landlord o dan gontract meddiannaeth perthnasol yn credu bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd, caiff y landlord adennill meddiant o'r annedd yn unol â'r adran hon.

(2) Mae contract meddiannaeth yn berthnasol os yw'n un o delerau'r contract (ym mha fodd bynnag y'i mynegir) bod yn rhaid i ddeiliad y contract feddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref.

(3) Rhaid i'r landlord roi hysbysiad i ddeiliad y contract—

(a) yn datgan bod y landlord yn credu bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd,

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y contract hysbysu'r landlord mewn ysgrifen cyn diwedd y cyfnod rhybuddio os nad yw deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd, ac

(c) yn hysbysu deiliad y contract o fwriad y landlord i derfynu'r contract os yw'r landlord, ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio, yn fodlon bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

(4) Yn ystod y cyfnod rhybuddio rhaid i'r landlord wneud unrhyw ymholiadau sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni ei hun bod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd.

(5) Ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio caiff y landlord, os yw'n fodlon fel y disgrifir yn is-adran (4), derfynu'r contract drwy roi hysbysiad i ddeiliad y contract.

(6) Daw'r contract i ben pan roddir yr hysbysiad o dan is-adran (5) i ddeiliad y contract.

(7) Os terfynir contract meddiannaeth o dan yr adran hon caiff y landlord adennill meddiant o'r annedd heb achos llys.

(8) Y cyfnod rhybuddio yw'r cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (3) i ddeiliad y contract.

(9) Rhaid i'r landlord roi copi o hysbysiad o dan is-adran (3) a chopi o hysbysiad o dan is-adran (5) i unrhyw letywr neu isddeiliad i ddeiliad y contract.